**CYNGOR TREF ABERYSTWYTH**

**Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116**

# Hysbysiad o Gyfethol

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod Cyngor Tref **ABERYSTWYTH (WARD RHEIDOL)** yn bwriadu Cyfethol **1** aelod i lenwi'r lle gwag sydd yn bodoli ar gyfer Cynghorydd yng Nhref **ABERYSTWYTH (WARD RHEIDOL).**

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu tref/cymuned ar y Cyngor Tref/Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau yr Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys; yn 18 oed neu'n hŷn; a rhaid cwrdd ag o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y dref/gymuned a enwir uchod, yn ystod y 12 mis diwethaf yn gyfan; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn y dref/gymuned a enwir uchod, yn ystod y 12 mis diwethaf; neu
- wedi byw yn y dref/gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni, yn ystod y 12 mis diwethaf yn gyfan.[1]

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd wag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â rôl Cynghorwyr Tref, cysylltwch â Chlerc y Cyngor Tref yn **Cyngor Tref Aberystwyth, 11 Stryd Y Popty, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2BJ** erbyn **07/08/2024.**

Dyddiedig y **18** diwrnod hwn o **GORFFENNAF 2024.**

**Mr. Eifion Evans, Swyddog Canlyniadau**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

[1] Mae rhai pobl benodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y cyngor cymuned, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny a fu'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan y Swyddog Canlyniadau / Published and printed by the Returning Officer